Bevan FOUNDATION

# Newid Cymru




## Pwy ydyn ni

Mae SEFYDLIAD **Bevan**

yn datblygu atebion i broblemau cymdeithasol ac economaidd Cymru drwy ymchwil, cyhoeddiadau a digwyddiadau.

Mae'n elusen gofrestredig (rhif 1104191) ac yn gwmni cyfyngedig drwy warant (4175018).

## Yr angen i weithreda

Mae'r dirwasgiad hiraf a'r dyfnaf ers y 1930au yn dal i effeithio'n ddifrifol ar bobl Cymru, gyda lefelau uchel o incwm isel, afiechyd, cyflawniad addysgol isel a thai gwael. Cyfyngwyd ar ystod a gallu'r sector cyhoeddus a'r trydydd sector i fynd i'r afael â'r problemau hyn gan y cyfyngu ar wariant. Nawr, yn fwy nag erioed, mae angen syniadau newydd am ehangu'r cyfleoedd economaidd, taclo tlodi a lleihau anghydraddoldeb.

Mae Sefydliad Bevan yn datblygu syniadau newydd drwy:

- ymchwil ac ymholiad i achosion sylfaenol anghyfiawnder ac anghydraddoldeb cymdeithasol,
- datblygu cynigion ar gyfer polisi ac ymarfer effeithiol,
- perswadio gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr a'r cyhoedd i newid.

# Yr hyn a wnaethnon ni

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, canolbwyntion ni'n gweithgareddau ar bedair thema allweddol:

### Tlodi ac anfantais

Fe wnaethon ni barhau â'n rhaglen arloesol o godi ymwybyddiaeth ac ymchwil i ddarganfod atebion i dlodi ac anfantais. Gweithion ni gyda Sefydliad Joseph Rowntree i ledaenu canfyddiadau ei adroddiad *Monitro Tlodi ac Eithrio Cymdeithasol yng Nghymru 2013* a chyhoeddi rhai astudiaethau achos o arferion da, helpu i ledaenu adroddiad Sefydliad JRF, Tlodi ac Ethnigrwydd yng Nghymru a chyflenwi rhaglen o seminarau ar *Dlodi ac Addysg yng Nghymru*. Hefyd, roedd ein Cyfarwyddwr yn aelod o grŵp tasg Sefydliad Joseph Rowntree i ddatblygu strategaeth gwrth-dlodi'r DU.

Roedden ni'n falch o allu darparu arbenigedd ar gyfer Llywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru yn cynnwys:

- paratoi adroddiad ar ddyled a thlodi, adroddiad a gomisiynwyd gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru;
- cynghori Grŵp Ymgynghorol Llywodraeth Cymru ar Drethi;
- cynnig tystiolaeth arbenigol i ymchwiliadau Cynulliad Cymru i addysg a thlodi ac ar ei ymchwiliad arfaethedig i dlodi.

Hefyd, fe wnaethon ni gynghori Loteri Fawr Cymru ar feini prawf y gellid eu defnyddio ar gyfer cyllido yn seiliedig ar leoliad a chynnal ymchwil ar effaith y mesurau cyni ar bobl hŷn ar gyfer y Comisiwn Pobl Hŷn.

Daliwyd ati gydag astudiaethau lleol uchel eu hansawdd o amddifadedd, gan gynnal arolwg o effaith y dirwasgiad a diwygiad lles ar fenywod yn Ystradgynlais ar gyfer Joyce Watson, AC, ac astudiaeth o ddiweithdra ym Mrynmawr ar gyfer Clwstwr Gogleddol Cymunedau'n Gyntaf Blaenau Gwent (sydd i'w chyhoeddi yn ddiweddarach yn 2014).

### Yr Economi a Chyflogaeth

Cyfrannodd profiad Sefydliad Bevan o weithio ar sut y gall busnesau cydweithredol ddarparu mwy o fanteision cymdeithasol ac economaidd na strwythurau confensiynol busnes at dri phrosiect gwahanol. Gwnaethon ni'r canlynol:

- drafftio adroddiad terfynol ar gyfer Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Cymru,
- trefnu Gwobrwyon Robert Owen 2013 ar gyfer Aelodaeth Mentrau Cydweithredol Cymru, a
- mapio' cwmnïau cydweithredol a mentrau cymdeithasol ar gyfer Canolfan Mentrau Cydweithredol Cymru.

Gweithion ni gyda Phrifysgol Caerdydd i ddosbarthu canfyddiadau dwy raglen ymchwil bwysig ar gyflogaeth, sgiliau a'r farchnad lafur, gan ddod â gwneuthurwyr polisi y sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ac academyddion blaenllaw'r DU at ei gilydd i gydweithio ar sefydlu polisi a gwneud penderfyniadau.

Roedd ein Cyfarwyddwr yn aelod o Gomisiwn y DU ar Gyflog Byw a gadeiriwyd gan Archesgob Efrog, comisiwn a oedd yn ystyried sut y gellid cynyddu enillion y rhai sydd ar y cyflogau lleiaf yng Nghymru, a gweddill y DU, er mwyn darparu safon byw sy'n dderbyniol.

### Cludiant Cyhoeddus

Bu gan Sefydliad Bevan ddiddordeb mawr mewn cludiant cyhoeddus ers amser maith oherwydd ei bwysigrwydd i bobl ar incwm isel a phobl â nodweddion gwarchodedig. Yn ystod haf 2013, cynhalion ni arolwg ar ran Llywodraeth Cymru o wasanaethau teithiau pell ar fws yng Nghymru a hefyd cynnal asesiad effaith cydraddoldeb o argymhellion i gwtogi gwasanaethau bws ar gyfer Cyngor Sir Powys. Yn nes ymlaen yn y flwyddyn cwblhaon ni adroddiad ar bwysigrwydd cludiant cyhoeddus i bobl hŷn yng Nghymru, ar gyfer Age Cymru.

### Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Roedden ni wrth ein bodd i lansio sefydlu Gwobr Bevan ar gyfer Iechyd a Lles, gwobr fydd yn cydnabod prosiectau nodedig sy'n cynnal gwerthoedd Gwasanaeth Iechyd Gwladol, ar gael i bawb ac am ddim yn y man lle mae'n cael ei ddefnyddio. Cyhoeddodd y beirniaid enwog, yr Athro Mansel Aylward, a'r diweddar, bellach, Geoffrey Goodman, a Jaselle Williams yr enillwyr yn yr Atlee Suite, Portcullis House, yn Llundain.

Cyfyngwyd ar ein cyllid ac roedd hynny'n golygu bod rhaid torri lawr ychydig ar waith arall ar iechyd a gofal cymdeithasol. Trefnon ni drafodaeth ar 'yr hawl i gael ein trin' gyda'r Sefydliad Materion Cymreig a chychwyn prosiect ymchwil (i'w gwblhau yn 2014/15) gyda Gofal Canser Marie Curie ar ofal diwedd oes.





# Yr hyn a newidion ni

Pwrpas elusennol cyffredinol Sefydliad Bevan ydy 'addysgu'r cyhoedd', gyda phwyslais arbennig ar bolisi cyhoeddus. Rydyn ni wedi cyflawni'n pwrpas drwy raglen helaeth o gyhoeddiadau, sylw gan y cyfryngau a digwyddiadau:

### Cyhoeddiadau

- Cyhoeddi saith adroddiad gwahanol neu bamffledi, rhai gan ein staff ein hunain ac eraill gan gyfranwyr nodedig yn cynnwys Aelodau'r Cynulliad a phenaethiaid elusennau adnabyddus;
- cyhoeddi saith deg naw o wahanol erthyglau ar ein gwefan, fel arfer yn denu dros 500 o ddarllenwyr yr wythnos, gydag ystod eang o gyfranwyr o Aelodau'r Cynulliad i Aelodau Seneddol i bobl anabl, aelodau undebau llafur a gweithwyr elusennol;
- cyhoeddi tri rhifyn o'n cylchgrawn, **Review**, gyda thros 40 o erthyglau gan awduron blaenllaw.

### Sylw yn y Cyfryngau

- Sywladau ym mhapurau newyddion dyddiol Cymru o leiaf unwaith y mis ar faterion yn amrywio o fenthyciadau diwrnod cyflog, banciau bwyd, ffitrwydd i weithio, anghydraddoldebau iechyd a chyflawniad addysgol;
- ymddangos ar radio a theledu oriau brig yng Nghymru ar naw achlysur gwahanol, yn trafod Cyflog Byw, diweithdra tymor hir, cludiant cyhoeddus a diwygio lles.

### Digwyddiadau

- Yn denu dros 600 o gynrychiolwyr i amrywiaeth o seminarau, cynadleddau a thrafodaethau o gwmpas bwrdd a seremonïau gwobrwyo;
- siarad mewn achlysuron a drefnwyd gan eraill megis yr ymgyrch yn erbyn benthycwyr arian di-drwydded a drefnwyd a'i arwain gan Dai Cymunedol Cymru a Chyfarfod Blynyddol Cyffredinol Mudiadau gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr.

### Sail i bolisi cyhoeddus

- Cael ein dyfynnu mewn sesiwn lawn o gwestiynau gan Aelodau'r Cynulliad o bob parti ar, er enghraifft, prydau ysgol am ddim, y Gronfa Cymorth Dewisol newydd a diwethdra ymhlith menywod;
- sail i gasgliadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar ddyfodol cydraddoldeb a hawliau dynol ac ar dlodi ac addysg;
- perswadio Cyngor Sir Powys i ail-ystyried y darpar doriadau i wasanaethau bysys.

Mae effaith ein gweithgareddau yn aml yn anodd ei fesur gan nad ydyn ni'n gwybod yn bendant a ydy'r unigolyn neu'r sefydliad yn defnyddio'n canfyddiadau fel sail i newid eu polisi neu eu harferion eu hunain. Rydyn ni'n ymwybodol bod sefydliadau megis Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sefydliad Banc Lloyds, y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ,a llawer mwy, yn gwneud defnydd o'n gwaith yn ogystal â disgyblion ysgol sy'n astudio Bagloriaeth Cymru a myfyrwyr Prifysgol Caerdydd.

O'n gwerthusiad o'r rhwydwaith addysg a thlodi, cafwyd bod hanner y rhai a fynychodd un neu fwy o'r seminarau wedi gwneud 'llawer' neu 'rai' newidiadau i bolisi neu arferion eu sefydliad yn sgil eu cyfranogiad – cyflawniad sylweddol. Cafodd arolwg o'n heffaith gyffredinol yn 2013/14 fod dros 90% o sefydliadau yn teimlo ein bod wedi darparu tystiolaeth ddefnyddiol ar gyfer eu gwaith ac wedi cynyddu eu dealltwriaeth. Dywedodd dros chwarter o'r unigolion eu bod wedi newid eu barn o ganlyniad i'n gweithgareddau ac un o bob deg sefydliad yn nodi eu bod wedi newid eu polisïau neu eu harferion.



# Cyllid

Does gan Sefydliad Bevan ddim gwaddol ac mae'n dibynnu ar grantiau, rhoddion a masnachu i gyflawni ei amcanion. Roedd yr hinsawdd ariannol yn 2013/14 yn dal i fod sialens. Ond, llwyddodd y Sefydliad i droi'r hyn oedd yn golled y flwyddyn flaenorol yn arian dros ben sef £29,579, drwy leihau costau, rhoddion ychwanegol untro, diolch i'r bartneriaeth barhaus gyda'r Dyn Gwyrdd (Green Man) ynghyd â llawer o waith ymchwil ar gontract.

Mae'r arian dros ben yn chwyddo'r gronfa wrth gefn i sicrhau chwe mis o gostau rhedeg a defnyddir y rhan fwyaf yn 2014/15 i osod y Sefydliad ar sail ariannol mwy cynaliadwy drwy ganiatáu amser ar gyfer cyflwyno ceisiadau am arian i ymddiriedolaethau a sefydliadau, datblygu partneriaethau busnes a chynyddu'r aelodaeth a rhoddion.

### Incwm

Cyfanswm incwm 2013/14 oedd £163,662.

#### *Aelodaeth a rhoddion*

Derbyniodd y Sefydliad £55,526 mewn rhoddion gan gynnwys tanysgrifiadau aelodaeth a, thrwy hynny, wella ar incwm siomedig y flwyddyn flaenorol. Gwerthfawrogwyd y bartneriaeth barhaus gyda Gŵyl y Dyn Gwyrdd yn fawr iawn a phroffil cyhoeddusrwydd y Dyn Gwyrdd yn galluogi'r Sefydliad i godi cyfanswm o £10,000. Roedden ni wrth ein bodd i drefnu cinio codi arian gyda Keir Starmer, y cyn-Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, fel ein siaradwr gwadd – rydyn ni'n ddiolchgar i westy'r 'Potted Pig' a 'Positif Politics' am eu cymorth.

Mae ein cylchgrawn, **Review**, yn dal i fod yn boblogaidd iawn. Sefydlon ni ardal aelodau ar ein gwefan lle mae ôl-rifynnau o'r cylchgrawn ar gael ynghyd â briffio aelodau e.e. ar y Cyflog Byw a diwygio'r dreth ynghyd â gofod ar gyfer sylwadau a thrafodaeth.

#### *Grantiau*

Cyfanswm yr incwm o grantiau yn 2013/14 oedd £24,237, cyfran fechan o'r cyfanswm incwm. Mae Sefydliad Bevan yn ddiolchgar i Sefydliad Joseph Rowntree am grantiau tuag at y costau craidd, i Dwf Swyddi Cymru a Go Wales am y grantiau tuag at gostau staff dros dro ac i Gyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful am grantiau tuag at gostau uwchraddio'r wefan.

#### *Ymchwil a Digwyddiadau*

Daeth mwyafrif incwm Sefydliad Bevan o £81,719 o waith ymchwil, digwyddiadau a chyhoeddiadau. Cynhyrchwyd yr holl incwm hwn drwy fasnachu yn gyson â phwrpas sylfaenol y Sefydliad.

#### *Gwariant*

Cyfanswm y gwariant yn ystod y flwyddyn oedd £119,292, gostyngiad o 18% ar y flwyddyn flaenorol. Costau cyflogaeth oedd ychydig dros 70% o hyn.

# Edrych ymlaen

Rydyn ni'n falch o'r hyn yr ydyn ni wedi'i gyflawni yn enwedig o gofio mai prin ydy ein hadnoddau. Er bod angen ein gweithgareddau yn fwy nag erioed, mae'r hinsawdd ariannol yn dal yn heriol ac mae sefydliadau newydd sy'n ymateb i bolisi yn ymddangos. Cychwynwyd ar ein proses o drawsnewid yn 2012/13 dan arweiniad y cadeirydd interim, Sandy Blair er mwyn:

- ail-strwythuro'r Bwrdd i gynnwys y gymysgedd briodol o sgiliau a phrofiad
- penodi cadeirydd sefydlog erbyn diwedd 2014/15
- cynnal adolygiad strategol o'n cyfeiriad
- gweithredu i geisio sicrhau cyllid cynaliadwy.

# Manylion gweinyddol

**Ymddiriedolwyr:**

Sonia Behr
'Sandy' R D Blair (*Cadeirydd o7 Tachwedd 2013*)
Stephen Brooks
Dai Davies (*Trysorydd*)
Cerys Furlong
Jeremy Gass
Daran Hill
Jeremy Miles (*Ysgrifennydd o 7 Tachwedd 2013*)
Timothy Palazon
Simon Pickthall
Vivienne Sugar (*Penodwyd 7 Chwefror 2014)*)
Jaselle Williams

**Ymddeolodd yr ymddiriedolwyr canlynol yn ystod y flwyddyn:**

Alun Burge
Gideon Calder
Bob Chapman (*Ysgrifennydd hyd at 7 Tachwedd 2013*)
Paul O'Shea (*Cadeirydd hyd at 7 Tachwedd 2013*)

**Staff**

Victoria Winckler Cyfarwyddydd
Anne-Marie Carpenter Rheolydd Swyddfa
Catherine Davies Cynorthwy-ydd Ymchwil a Marchnata (*hyd at Hydref 2013*)
Laura Rees Cynorthwy-ydd Marchnata (*o Chwefror 2014*)

Bevan FOUNDATION
**145a Stryd Fawr, Merthyr Tudful CF47 8DP**
Ffôn: 01685 350 938 E-bost: info@bevanfoundation.Laura org www.bevanfoundation.org
Elusen gofrestredig 1104191 a chwmni cyfyngedig drwy warant cofrestredig yng Nghymru 4175018